# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol - Proffil dwy dudalen

## ***Rhaglen Ranbarthol Gofalwyr Di-dâl (PR014)***

Mae'r proffil hwn yn dangos y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig blynyddol, monitro a gwerthuso, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

### Trosolwg/crynodeb o'r rhaglen

Mae'r Rhaglen Cefnogi Gofalwyr yn darparu adnodd hanfodol i ofalwyr o bob oed, gan ddarparu cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion amrywiol. O ofalwyr ifanc yn ymdopi ag ysgol law yn llaw â'u cyfrifoldebau, i unigolion hŷn sy'n gofalu am anwyliaid â dementia neu eiddilwch.

Mae'r rhaglen, a ddatblygwyd trwy bartneriaethau cryf ag ystod eang o sefydliadau, yn sicrhau cefnogaeth gynhwysfawr a chyflenwol, gan osgoi dyblygu gwasanaethau. Mae'r fenter hon, a ariennir yn rhannol gan y Gronfa, yn gwella ymdrechion sy'n bodoli'n barod ac yn ehangu cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd cymorth i ofalwyr.

Un ffocws allweddol o'r rhaglen yw mynd i'r afael â'r heriau penodol y mae gofalwyr yn eu hwynebu, gan gynnwys pontio esmwyth o'r ysbyty i'r cartref a darparu gwybodaeth a chyngor hanfodol. Trwy brosiectau amrywiol, caiff gofalwyr gefnogaeth ymarferol ac emosiynol, gan eu grymuso â'r wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i ofalu'n effeithiol am eu hanwyliaid.

Yn gyffredinol, mae'r Rhaglen Cefnogi Gofalwyr yn gwella ansawdd bywyd gofalwyr, gan hybu ymwybyddiaeth, a grymuso. Drwy hyrwyddo cymuned gefnogol, mae'r rhaglen yn sicrhau bod gofalwyr mewn sefyllfa well i ymdrin â'u rolau, sydd o fudd i'r gofalwyr a'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanynt yn y pen draw.

### Cynnyrch RIF:

*Model gofal sylfaenol:*

Atal a chydgysylltu cymunedol

*Grŵp poblogaeth â blaenoriaeth:*

Gofalwyr di-dâl

*Galluogwyr:*

Hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol

Hybiau cymunedol integredig

Datblygu'r ac integreiddio'r gweithlu

*Dull rhanbarthol:*

Darperir y rhaglen gan bartneriaid lluosog ar draws y rhanbarth, yn bennaf o'r sector gwirfoddol. Mae cyllid a glustnodwyd gan y RIF a chyllid craidd yn cyfrannu at fuddsoddiad llawer mwy gan bartneriaid statudol. Dyma raglen integredig sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid o bob sector.

### Blaenoriaeth (Cysylltiedig â'r Cynllun Ardal)

Bydd gofalwyr di-dâl yn gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wella eu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael a dileïr y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael cymorth.


Bydd gofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn cael eu cefnogi i fwynhau iechyd a lles da ac yn cael eu cefnogi i gynnal/gwella eu hiechyd corfforol.

Bydd gofalwyr a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn cael eu cefnogi i fwynhau iechyd a lles da ac yn cael eu cefnogi i gynnal/gwella eu hiechyd corfforol.

Bydd gofalwyr yn cael mynediad at weithgareddau cymdeithasol, hamdden, diwylliannol a hwyl priodol lle bynnag y maen nhw'n byw neu beth bynnag fo'u hamgylchiadau.

Bydd gofalwyr yn cael mynediad at weithgareddau cymdeithasol, hamdden, diwylliannol a hwyl priodol lle bynnag y maen nhw'n byw neu beth bynnag fo'u hamgylchiadau.

### Gwariant prosiect – £269,428 (BA 2023/24)




### *Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni::*

| |
|---|
| MIND |
| Awdurdodau lleol |
| BILI |
| Trydydd sector |
| Darparwyr cymunedol |
| CGS |


### *Crynodeb o wariant:*

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at ddarparu cymorth i ofalwyr ar draws y rhanbarth. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn.


## Allbynnau rhaglen (ffigurau blynyddol): (gan gynnwys mesurau canlyniad ychwanegol)

| | |
|---|---|
| Pobl newydd sy'n cyrchu cefnogaeth | 1687 |
| Nifer yn mynychu gweithgareddau /r hwydweithiau grŵp | 1444 |
| Nifer sy'n derbyn cefnogaeth un i un | 351 |
| Nifer yn derbyn cyngor/cymorth budd-daliadau | 233 |
| Gwell ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol | 422 |
| Nifer sy'n cael cefnogaeth gyda bathodynnau glas | 40 |
| Nifer y gwasanaethau/cyfleoedd newydd a ddatblygwyd gan ddefnyddio cydgynhyrchu | 13 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 45 |

## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol) (Rhifau)




## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)




## Effaith y rhaglen (ansoddol):

1. **Gwell llesiant a gwytnwch**: Dywedodd gofalwyr eu bod yn teimlo mwy o gefnogaeth, a gyfrannodd at wella llesiant cyffredinol. Maent yn fwy abl i ymdrin â heriau sy'n gysylltiedig â rhoi gofal, gan ddangos mwy o wytnwch wrth reoli straen a chyfrifoldebau dyddiol.
2. **Llai o ynysu cymdeithasol:** Disgrifiodd llawer o ofalwyr eu bod yn teimlo'n llai unig. Trwy gymryd rhan mewn grwpiau cymorth, gweithdai, a digwyddiadau cymunedol, daeth gofalwyr o hyd i ymdeimlad o berthyn a chyfeillgarwch ag eraill sy'n wynebu heriau tebyg.
3. **Gwell rhwydweithiau cymorth:** Mae gofalwyr wedi ehangu eu rhwydweithiau cymorth, yn anffurfiol ymhlith cyfoedion ac yn ffurfiol trwy gysylltiadau â darparwyr gwasanaeth eraill. Mae hyn yn rhoi cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol.
4. **Mwy o hyder:** Adroddodd gofalwyr sy'n cymryd rhan mewn sesiynau am fwy o hyder yn eu gallu i roi gofal. Dysgu sgiliau a strategaethau newydd i ddarparu gwell gofal.
5. **Adborth cadarnhaol:** Mae adborth ansoddol yn amlygu'n gyson werthfawrogiad am y cymorth a'r gwasanaethau.

Yn gyffredinol, mae'r effaith ansoddol yn glir, gan wella ansawdd bywyd gofalwyr, eu gwytnwch, a'u gallu i ddarparu gofal effeithiol, trwy fynd i'r afael nid yn unig ag anghenion ymarferol ond hefyd lles emosiynol a grymuso.

## Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Cyflawnodd y Rhaglen Gofalwyr gerrig milltir sylweddol wrth gefnogi gofalwyr ar draws ein rhanbarth. Yn gyntaf, ni symudodd 422 o unigolion i drothwyon gwasanaethau statudol, gan amlygu'r ymyrraeth gynnar effeithiol a chymorth a ddarparwyd. Mae hyn wedi helpu i atal ymyriadau uwch, gan leihau'r straen ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Dywedodd 294 o unigolion fod eu lles wedi gwella, gan ddangos yr effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl ac emosiynol gofalwyr. Yn yr un modd, dywedodd 174 o unigolion eu bod yn fwy gwydn, gan amlygu gallu gwell i ymdopi â heriau gofal.

Llwyddodd y rhaglen i leihau ynysu ymhlith gofalwyr, gyda 175 o unigolion yn dweud eu bod yn teimlo'n llai unig a 244 yn adrodd am fwy o gysylltiadau cymdeithasol. Dengys hyn rywfaint o lwyddiant o ran meithrin cysylltiadau cymunedol a chymdeithasol, gwella rhwydweithiau cymorth a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau.

Yn ogystal, cyfeiriodd y rhaglen 1,806 o unigolion at wasanaethau ychwanegol, gan sicrhau mynediad at ystod ehangach o adnoddau, gan ddefnyddio'r ddarpariaeth bresennol yn ein rhanbarth.

Yn gyffredinol, dangosodd y Rhaglen Cefnogi Gofalwyr gefnogaeth gynhwysfawr i ofalwyr ar draws CTM, gan fynd i'r afael â'u hanghenion amrywiol a gwella eu llesiant, eu gwytnwch a'u hintegreiddiad cymdeithasol.

## Argymhellion:

Some potential recommendations to consider:

- Rhai argymhellion posibl i'w hystyried:
- Dal ati i ariannu ar y lefelau presennol.
- Adolygu sut mae arian a neilltuwyd yn cael ei ddefnyddio, ac ystyried darparu ymrwymiadau ariannu tymor hwy i roi sefydlogrwydd a pharhad i'r rhaglen.
- Cryfhau partneriaethau gyda'r holl randdeiliaid, archwilio dulliau mwy cydweithredol o drosoli adnoddau, rhannu arferion gorau, a sicrhau dull cyfannol o gefnogi gofalwyr.
- Eiriol ymhellach dros hawliau gofalwyr a chodi ymwybyddiaeth o'u cyfraniad amhrisiadwy tuag at gefnogi darpariaeth gofal ar draws y rhanbarth.

Dangosodd y rhaglen fuddion diriaethol ac mae'n gwella llesiant gofalwyr a'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanynt. Drwy fuddsoddi yn y cymorth i ofalwyr, gallwn gynnal ein hymrwymiad i gefnogi pobl fregus, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, a chynnal agwedd dosturiol ac ymatebol at gefnogi rhoi gofal yng Nghwm Taf Morgannwg.